## PWYLLGOR CRAFFU BYW'N IACH A GOFAL CYMDEITHASOL

Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod, 11 Mai, 2021.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Yn Bresennol: Cynghorydd S.J. Griffiths (Cadeirydd); Cynghorwyr Ms. J. Aviet, Mrs. J.E. Charles, O. Griffiths, T.H. Jarvie, Mrs. R. Nugent-Finn ac N.C. Thomas.

EITEM AGENDA 1. PENODI IS-GADEIRYDD –

PENDERFYNWYD – Y Cynghorydd N.C. Thomas yn Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu am y flwyddyn Ddinesig.

EITEM AGENDA 2. YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd J.W. Thomas.

EITEM AGENDA 3. COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Mawrth, 2021 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 4. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

EITEM AGENDA 5. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y GWASANAETH GWYBODAETH I DEULUOEDD 2020 (CGC) –

ARGYMHELLWYD –

(1) Nodi Adroddiad Blynyddol Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Bro Morgannwg, fel y nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad, a'r gwaith a wnaed i gefnogi rhieni/ gofalwyr a darparwyr ym Mro Morgannwg.

(2) Ypery'r Pwyllgor i gael y wybodaeth ddiweddaraf am y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd bob blwyddyn ym mis Mai.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) I sicrhau bod y Pwyllgor Craffu yn parhau i gael yw wybodaeth ddiweddaraf mewn perthynas â'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd.

EITEM AGENDA 6. TRACIO ARGYMHELLION CRAFFU 2020/21 Y 4YDD CHWARTER AC AMSERLEN Y BLAENRAGLEN WAITH FLYNYDDOL ARFAETHEDIG 2021/22 (RG) –

ARGYMHELLWYD –

(1) Y dylid cytuno ar statws y camau gweithredu a restrir wedi eu cwblhau yn Atodiad A yr adroddiad.

(2) Nodi Blaenraglen Waith Flynyddol y Cabinet ar gyfer 2021/22 sydd ynghlwm yn Atodiad C i'r adroddiad, yng nghyd-destun cynnwys Blaenraglen Waith Flynyddol y Pwyllgor Craffu Byw'n Iach a Gofal Cymdeithasol 2021/22.

(3) Nodi Blaenraglen Waith y 4$^{ydd}$ Chwarter sydd ynghlwm yn Atodiad B yr adroddiad.

(4) Cymeradwyo Blaenraglen Waith Flynyddol arfaethedig y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 sydd ynghlwm yn Atodiad D yr adroddiad a'i lanlwytho i wefan y Cyngor.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Parhau i dracio argymhellion y Pwyllgor yn effeithiol.

(2&3) Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(4) Er gwybodaeth.